



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Defnyddio platfform allanol fel dull hwylus o greu a defnyddio codau QR gyda thudalen dewis iaith

Amgueddfa Cymru yn cydweithio gyda busnes annibynnol Cymreig i ddarparu codau QR gyda thudalen dewis iaith ar gyfer eu deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu.

Gorffennaf 2025

Cefndir

Fel sy'n wir am nifer iawn o sefydliadau cyhoeddus a phreifat erbyn hyn, mae Amgueddfa Cymru yn gwneud defnydd cynyddol o godau QR er mwyn ehangu mynediad at wybodaeth, cyfeirio pobl at ffynonellau penodol, gwneud y mwyaf o ofodau argraffu a gweithredu'n fwy cynaliadwy.

Yn y gorffennol roedd yr Amgueddfa yn defnyddio platfform generig 'oddi ar y silff' i greu codau QR. Roedd y platfform yma'n ddryd, yn gyfyngedig o ran hyblygrwydd, ac yn annigonol o ran y Gymraeg. Byddai'n rhaid i swyddog mewnol greu tudalen dewis iaith ar gyfer pob cod unigol oedd yn dasg hir a llafurus. Yn ogystal, nid oedd yn bosib cynnwys dolen Cymraeg a Saesneg mewn un cod QR, felly roedd rhaid creu codau ar wahân i'r ddwy iaith.

Beth wnaeth ysgogi newid?

Cysylltodd busnes 'QR Cymraeg' â'r Amgueddfa gan nodi eu bod yn awyddus i gydweithio. Mae cwmni 'QR Cymraeg' yn cynnig platfform sydd yn creu tudalen dewis iaith yn awtomatig ar gyfer pob cod QR, ac felly un cod yn unig sydd ei angen er mwyn i ddefnyddwyr allu dewis ei iaith a chael mynediad at y cynnwys priodol. Gan fod y platfform yn cynhyrchu un cod a thudalen dewis iaith yn awtomatig, mae'n lleihau yr angen am adnoddau mewnol yn sylweddol o gymharu â'r platfform blaenorol.

Mae'r platfform newydd yn hwylus iawn i'w ddefnyddio. Mae gan yr Amgueddfa gyfrif unigol er mwyn gallu creu codau yn rhwydd ac addasu'r brandio ar y dudalen dewis iaith. O ganlyniad mae'n gyflymach ac yn haws creu codau QR sy'n addas at y diben. Mae gan yr Amgueddfa hefyd fynediad at ddata dadansoddi (*analytics*) er mwyn gallu deall mwy am y defnydd o'r codau QR, nifer y defnyddwyr sydd yn dewis cael mynediad i'r cynnwys yn Gymraeg, ac sut maent yn defnyddio'r cynnwys. Mae posib hefyd i staff unigol mewn timau amrywiol greu cyfrifon er mwyn gallu creu codau QR heb angen mewnbwn staff digidol. Mae hyn yn fuddiol i'r Amgueddfa fel corff aml-safle ac amlddisgyblaethol.

Mae'r tudalennau 'cyhoeddus' sydd i'w gweld wrth sganio'r codau QR ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac felly yn cydymffurfio â gofynion y Safonau. Mae'r busnes ar hyn o bryd yn gweithio i sicrhau bod y tudalennau mewnol sydd i'w gweld wrth i sefydliad fewngofnodi i'w cyfrif hefyd yn Gymraeg, gyda'r bwriad y bydd y platfform cyfan yn gwbwl dwyieithog yn y pen draw.

Pa hyfforddiant oedd ei angen ar staff cyn mynd ati i ddefnyddio'r platfform?

Mae'r platfform yn hawdd ei ddefnyddio a gall staff fwrw ati heb yr angen am hyfforddiant penodol. Fodd bynnag, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r platfform mae'r Amgueddfa yn bwriadu cynnig hyfforddiant ehangach i staff a bydd datblygwr y cwmni yn rhan o'r hyfforddiant hyn.

Beth yw manteision defnyddio'r platfform hwn?

Mae QR Cymraeg yn fusnes cychwynnol (*start-up*) newydd yng Nghymru. Roedd yr Amgueddfa yn falch o'r cyfle i weithio gyda busnes yng Nghymru sydd wedi gweld bwlch yn y farchnad a chreu datrysiad hwylus tra hefyd yn cefnogi'r economi leol. Mae'r Amgueddfa wedi cynnig adborth er mwyn mireinio a theilwra'r system, e.e. y gallu i greu dolen i ganiatáu i unrhyw un weld data dadansoddi ar gyfer cod penodol, ac maent yn parhau i drafod datblygiadau pellach gyda'r busnes.

Yn wahanol i rai platfformau lle bo codau QR yn arwain y defnyddiwr at dudalen Saesneg gan roi'r cyfrifoldeb ar y defnyddiwr i droi i'r Gymraeg (os oes fersiwn Gymraeg yn bodoli) mae QR Cymraeg yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig yn rhagweithiol. O ganlyniad mae'n hwyluso cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg yn ogystal â diwallu anghenion [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

Meddai'r Amgueddfa fod gweithio gyda QR Cymraeg wedi bod yn bleser ac wedi bod yn brofiad hyblyg ac agored.

Beth oedd ymateb staff i'r platfform?

Mae ymateb y staff wedi bod yn gadarnhaol iawn. Dywedodd Rheolwr Golygyddol Digidol Amgueddfa Cymru, '*Mae platfform QR Cymraeg yn galluogi i ddefnyddwyr greu a defnyddio codau QR yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan greu datrysiad syml ac effeithlon sy'n hwyluso hygyrchedd digidol dwyieithog.*'

Meddai Tom Porter, sylfaenydd QR Cymraeg: '*Mae wedi bod yn wych gweithio gydag Amgueddfa Cymru wrth i QR Cymraeg ddatblygu – mae wedi golygu bod y platfform*

wedi esblygu yn unol ag anghenion y sefydliad a'i ymwelwyr. Roedd yn hyfryd gweld y codau ar waith ar daith ddiweddar gyda'r teulu i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.'

Pwy arall fyddai'n elwa o ddefnyddio'r platfform hwn?

Mae QR Cymraeg ar gael at ddefnydd sefydliadau mawr neu fach ar draws Cymru gan ei fod yn symleiddio'r broses o greu codau QR ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae codau QR dwyieithog yn ddefnyddiol i sefydliadau yng Nghymru sy'n cynnal digwyddiad, gŵyl neu arddangosfa. Gellir ei ddefnyddio hefyd fel rhan o ymgyrchoedd mewnol neu gyhoeddus wrth gyhoeddi adroddiadau, taflenni, posteri neu wrth hysbysebu gwasanaethau penodol.

Oes costau ynghlwm?

Gellir defnyddio QR Cymraeg i greu codau dwyieithog am ddim heb angen cofrestru. Gellir creu cyfrif (am ddim) er mwyn cael mynediad at ddashfwrdd sy'n dangos faint o bobl sydd wedi defnyddio'r codau yn ôl eu dewis iaith.

Mae nifer o gynlluniau tanysgrifio y codir tâl amdanynt hefyd ar gael sy'n cynnig nodweddion ychwanegol, fel golygu URLs ar ôl i'r cod gael ei greu, ychwanegu brand sefydliad at y dudalen dewis iaith, gweld data dadansoddi manwl a chreu dolenni y gellid eu rhannu at y data hwnnw

Manylion cyswllt

Sefydliad: Amgueddfa Cymru

E-bost:

Manon.WynHumphreys@amgueddfacymru.ac.uk

Swyddog cyswllt: Manon Humphreys

Manylion cyswllt

Sefydliad: QR Cymraeg

E-bost: helo@qrcymraeg.com

Person cyswllt: Tom Porter